**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc held at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Iau, 19eg Mai, 2016 at 10.00 am**

**PRESENT:** County Councillor P. Jones (Chairman)
County Councillor P. Farley (Vice Chairman)

County Councillors: L. Guppy, R. Harris, D. Jones, V. Smith and M Fowler (Parent Governor Representative)

**OFFICERS IN ATTENDANCE:**

| | |
|---|---|
| Will Mclean | Head of Democracy, Engagement and Improvement |
| Sharran Lloyd | LSB Development Manager |
| Andrew Kirby | |
| Kirsten Major | Partnership & Engagement J.A.F.F Co-ordinator, Policy & Partnerships |

**APOLOGIES:**

Councillors P. Clarke, M. Hickman, S. Howarth, M. Powell and K Plow (Association of School Governors)

1. **I nodi apwyntiad o Gadeirydd Pwyllgor Craffu Plant a phobl ifanc.**

Nodwyd penodiad y Cynghorydd Sir P. Jones fel Cadeirydd Pwyllgor Dethol Plant a Phobl Ifanc.

2. **Apwyntiad o Is- Gadeirydd.**

Penodwyd y Cynghorydd Sir P. Farley fel Is-gadeirydd Pwyllgor Dethol Plant a Phobl Ifanc.

3. **Datganiadau o Fuddiant**

Datganodd y Cynghorydd Sir L. Guppy fuddiant personol, manteisiol yn unol â'r Cod Ymddygiad Aelodau parthed cofnod 5 – Taclo Tlodi yn Sir Fynwy a chofnod 6 - Craffu Rhaglenni Cymorth i Deuluoedd.

4. **Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol**

Cadarnhawyd cofnodion Pwyllgor Dethol Plant a Phobl Ifanc dyddiedig 17eg Mawrth 2016 a llofnodwyd hwy gan y Cadeirydd.

5. **Taclo tlodi yn Sir Fynwy.**

**Cyd-destun:**

- Darparu trosolwg o Raglen o Fwriad Taclo Tlodi yn Sir Fynwy.

- Tynnu sylw at y gweithgarwch cyfredol sy'n digwydd ar draws Sir Fynwy sy'n cyfrannu at daclo tlodi.

- Darparu trosolwg o'r agwedd gyfredol at daclo tlodi, sy'n cyflinio i Gynllun Integredig Sengl Sir Fynwy.

**<u>Materion Allweddol:</u>**

**Trosolwg o Raglen o Fwriad Taclo Tlodi yn Sir Fynwy.**

Mae tlodi'n arwain at ganlyniadau addysgol ac iechyd gwaeth ar gyfer unigolion, yn lleihau cyfleoedd-bywyd ac yn atal pobl rhag cyflawni'u potensial. Mae tlodi hefyd yn gosod costau aruthrol ar y gymdeithas a galw cynyddol ar wasanaethau cyhoeddus. Yn Sir Fynwy mae tlodi'n aml yn cael ei guddio neu mae mewn pocedi bychain. Y ffocws yw dynodi'r rheiny gaiff eu heffeithio gan dlodi a darparu ystod gynhwysfawr a chlir o wasanaethau sy'n cefnogi pobl i oresgyn rhwystrau, gan ganiatáu iddynt gymryd rhan yn llawn mewn cymdeithas ac ymhél ag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth.

Bwriedir i hyn gael ei wneud drwy ganolbwyntio ar y canlynol:

- Atal Tlodi drwy roi i bobl y cychwyn gorau posib mewn bywyd. Torri'r cyswllt rhwng anfantais economaidd-gymdeithasol, tangyflawni addysgiadol a chyfleoedd andwyol bywyd.

- Helpu pobl i wella'u sgiliau, cyfoethogi perthnasedd eu cymwysterau a symud rhwystrau i gyflogaeth.

- Lleihau effaith tlodi drwy ddarparu rhaglen glir o gefnogaeth wedi'i thargedu tuag at y rheiny sydd dan anfantais tlodi.

Edrychir ar Gynllun Integredig Sengl Sir Fynwy 2013-17 fel prif gyfrwng mynd i'r afael ag anghydraddoldeb a thaclo tlodi. Wrth weithio mewn partneriaeth gyda'r gymuned, darparwyr gwasanaeth a chyflogwyr, cydnabyddir bod taclo tlodi yn thema drawstoriadol lle mae cydweithredu'n hanfodol wrth gyflawni'r Cynllun i sicrhau bod: **Neb yn cael ei adael ar ôl, mae Pobl yn Hyderus, yn Alluog ac yn Cymryd rhan ac mae'n Sir yn Ffynnu.**

Cydnabu'r Asesiad o Anghenion Strategol, a gyflawnwyd i hwyluso cynhyrchu'r Cynllun Integredig Sengl, y gwahaniaeth mewn cyfoeth ar draws y sir ac mewn ffactorau allweddol megis disgwyliad bywyd. Mae'n amlwg feysydd y gellir eu dynodi yn ein trefi lle mae pobl dan anfantais ac mae hyn yn creu synnwyr o 'bocedi o amddifadedd'.

Nodweddir natur tlodi yn Sir Fynwy hefyd gan gyfansoddiad gwledig y sir. Mae Sefydliad Joseph Rowntree yn amcangyfrif ei bod yn costio 10-20% yn fwy i gyrraedd safon byw sylfaenol ddigonol mewn ardaloedd gwledig na threfol, yn bennaf oherwydd costau cynyddol cludiant a gwresogi.

Er mwyn taclo tlodi fe'n gyrrir gan uchelgais i alinio mentrau cenedlaethol a lleol i gyflawni ystod eglur o wasanaethau sydd wedi cael cyhoeddusrwydd da ac sy'n hygyrch.

Mae nifer o bartneriaethau'r BGC wedi'u dynodi sy'n cyflenwi mewn tri maes:

- **Atal Tlodi:** Fe'i cefnogir gan raglen Dechrau'n Deg, Rhaglenni Teuluoedd yn Gyntaf, Tîm o Amgylch y Teulu, Partneriaeth Datblygiad y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant a Chynnig Ieuenctid Integredig.

- **Helpu pobl i mewn i waith:** Mae wedi cefnogi Grŵp Cyflogadwyedd 16+, Cynnig Ieuenctid Integredig, a Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf.

- **Lleihau Effaith Tlodi:** Fe'i cefnogir gan Bartneriaeth Cynhwysiant Ariannol, Economaidd a Digidol, Dechrau'n Deg, Rhaglen a Chynnig Ieuenctid Integredig.

**Grwpiau Partneriaeth, Llywodraethiant ac Atebolrwydd**

- Y Pencampwr Gwrthdlodi Corfforaethol a'r Pencampwr Gwrthdlodi ar ran yr Aelodau Etholedig yw'r arweinwyr strategol ar gyfer gwrthdlodi yn Sir Fynwy.

- Mae gan Y Pencampwr Gwrthdlodi Corfforaethol drosolwg o'r camau gweithredu a'r targedau sy'n gysylltiedig â thlodi ar gyfer pob un o'r grwpiau partneriaeth, sydd â'r gorchwyl o hwyluso cyflenwi naw deilliant allweddol y Cynllun Integredig Sengl.

- Darperir diweddariadau ac adroddiadau rheolaidd ar gynnydd i Fwrdd Rhaglenni'r BGC a'r Gwasanaethau Cyhoeddus.

Mae'r partneriaethau dan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Sir Fynwy yn gyfrwng sicrhau bod yr Awdurdod yn parhau i ganolbwyntio'i ymdrechion a'i adnoddau ar atal tlodi a lleihau effaith tlodi. Ein ffocws i'r dyfodol fydd adolygu dangosyddion perfformiad yn rheolaidd gyda phob partneriaeth i sicrhau eu bod wedi'u halinio i fentrau cenedlaethol ac anghenion lleol, tra sicrheir agwedd ddeallus at dargedu'r rheiny mewn angen. O ganlyniad, gallai'r dangosyddion perfformiad newid fel rydym yn caboli'n dull o weithredu.

**Symud Ymlaen**

Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i'r canlynol:

- Sefydlu Gweithgor Gwrthdlodi a fydd yn goruchwylio datblygiad, integreiddiad, aliniad ac adrodd ar raglenni gwrthdlodi cenedlaethol a lleol.

- Datblygu Cynllun Gweithredu Gwrthdlodi a fydd yn dwyn ynghyd ddangosyddion perfformiad Partneriaethau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus; sy'n gysylltiedig â thaclo tlodi.

- Cyflawni ymarfer mapio o ddarpariaethau sydd â'r nod o atal a lleihau effaith tlodi, tynnu sylw at fylchau mewn darpariaeth i lunio cyfeiriad comisiynu i'r dyfodol.

- Codi ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau a all helpu i leihau tlodi drwy ddiweddaru a hyrwyddo Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Sir Fynwy.

**<u>Craffu Aelodau:</u>**

- Derbyniasom gyflwyniad a ffilm fer a oedd yn dynodi'r ffyrdd y mae swyddogion yn taclo tlodi yn Sir Fynwy.

- Ar 1af Mehefin 2016 cynhaliwyd gweithdai ynghylch taclo tlodi.

- Cynhaliwyd trafodaethau gyda Chymdeithas Dai Sir Fynwy a'r Loteri Fawr lle cododd syniadau i ddarparu gofal a helpu pobl i fynd nôl i mewn i'r gwaith.

- Y Cynghorydd Sir P. Hobson yw Pencampwr Gwrthdlodi'r Cyngor.

- Mae gan Raglen Taclo Tlodi Sir Fynwy ystod eang o bartneriaethau sy'n dwyn partïon allweddol ynghyd.

- Mae grwpiau ar hyn o bryd yn canolbwyntio ar gamau gweithredu allweddol ac maent yn cyflenwi gwasanaeth da. Fodd bynnag, gyda chyflwyno'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, gallai fod gostyngiad yn nifer y partneriaethau sy'n ofynnol.

- Yr haf hwn, cynhelir Seminar i'r Holl Aelodau ynghylch y mater hwn. Yn ystod haf/hydref 2016 bydd swyddogion yn treulio amser yn ymweld ag ysgolion a neuaddau pentref. Yn dilyn hyn, cynhelir sesiwn gyhoeddus i sefydlu beth yw hi fel i fyw yn Sir Fynwy a bydd y sesiwn yn cynnwys aelodau etholedig ac aelodau o'r gymuned.

- Nodwyd bod angen ymgysylltu â phobl oedd yn byw ychydig uwchben y ffin dlodi. Derbynnid gwybodaeth oddi wrth gymuned yr ysgol, ynghyd â derbyn safbwyntiau plant.

- Mewn ymateb i gwestiwn gan y Pwyllgor Dethol ynghylch digartrefedd a theuluoedd mawr yn byw mewn amodau gorlawn, nodwyd bod hyn yn her. Hefyd, golygai cost gyfredol tai yn Sir Fynwy ei bod yn anodd i bobl ifanc fyw yn Sir Fynwy ac fe'u gorfodwyd i fyw y tu allan i'r Sir ac nid oeddent yn byw yn lleol i ddarparu gofal i aelodau'r teulu.

- Roedd angen mwy o dai cymdeithasol yn Sir Fynwy a hwyrach y bydd angen mynd i'r afael â'r mater hwn.

- Mae'r Tîm o swyddogion wedi ymrwymo i fynd i'r afael â phroblemau tlodi yn y Sir. Fodd bynnag, gallai mynd i'r afael â'r gofynion statudol yn y dyfodol olygu adolygiad o adnoddau. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, mae gan yr Awdurdod gyswllt cryf â gweithio mewn partneriaeth.

| |
|---|
| Penderfynasom dderbyn yr adroddiad a nodi'i gynnwys. |

6. **<u>Archwiliad o Raglenni Cymorth Teuluol.</u>**

**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc held at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Iau, 19eg Mai, 2016 at 10.00 am**

**Cyd-destun:**

- Darparu trosolwg o ddarpariaeth Teuluoedd yn Gyntaf yn Sir Fynwy a deilliannau perfformiad perthnasol.

- Canolbwyntio ar weithio mewn partneriaeth i gefnogi teuluoedd mewn tlodi i fynd i'r afael â'u hanghenion.

- Teuluoedd yn Gyntaf yw un o raglenni allweddol gwrthdlodi Llywodraeth Cymru, wedi'i chysylltu'n glos â rhaglenni Dechrau'n Deg a Chefnogi Pobl. Mae'i ffocws ar ymyrryd yn gynnar ac mae'n dibynnu ar weithio'n effeithiol mewn partneriaeth i ymgysylltu â theuluoedd i atal esgyn i argyfwng neu'r angen am ymyrraeth gan y gwasanaethau cymdeithasol. Yn Sir Fynwy, mae gennym Dîm o Amgylch y Teulu ac ystod o brosiectau a gomisiynwyd sy'n gweithio gyda'i gilydd i ddarparu cymysgedd briodol o ddarpariaeth i gefnogi teuluoedd i fynd i'r afael â'u hanghenion.

- Mae Tîm o Amgylch y Teulu (TAT) yn ddull o weithredu drwy Gymru gyfan a gyflenwir drwy raglen Teuluoedd yn Gyntaf Llywodraeth Cymru. Nod TAT yw cefnogi teuluoedd yn Sir Fynwy i ostwng y lefel o angen y gallent fod yn ei phrofi: gwneir hyn drwy deilwra cefnogaeth gyda thîm o bobl broffesiynol a all ddarparu gwasanaethau i gefnogi teulu. Mae proses TAT yn galluogi teuluoedd i weithio gyda'i gilydd i gyflenwi gwasanaethau a adeiledir o gwmpas anghenion teulu, a nod TAT yw gweithio gyda theuluoedd i ddynodi'r gefnogaeth gywir gan y bobl gywir ar yr amser cywir.

  Deilliannau Teuluoedd yn Gyntaf fel yr amlinellwyd hwy gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2015/16**:**

  - Mae pobl mewn teuluoedd incwm isel yn elwa, ac yn gwneud cynnydd o fewn cyflogaeth.
  - Mae plant, pobl ifanc a theuluoedd yn cyflawni'u potensial.
  - Mae plant, pobl ifanc a theuluoedd yn iach ac yn mwynhau lles.
  - Mae teuluoedd yn hyderus, yn ddiddig, yn wydn ac yn ddiogel.

  Mae prosiectau Teuluoedd yn Gyntaf yn cyfrannu at Gynllun Integredig Sengl Sir Fynwy:

  - Thema 2: Mae pobl yn Hyderus, yn Alluog ac yn Cymryd Rhan.
  - Deilliant 5: Cefnogir Teuluoedd.
  - Mae Teuluoedd yn Gyntaf hefyd yn cyfrannu'n sylweddol at daclo tlodi yn Sir Fynwy.

**Materion Allweddol:**

**Trosolwg o'r Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf**

Yn Rhagfyr 2015 darparodd Llywodraeth Cymru hysbysiad mai'r gyllideb ddangosol ar gyfer Teuluoedd yn Gyntaf yn 2016-17 yw £651,179, sef gostyngiad o £86,081 o 2015-16. Mae hyn yn cynnwys swm a glustnodir o £50,937 ar gyfer cymorth anabledd.

Er mwyn rheoli'r gostyngiad yn y gyllideb cyflawnwyd adolygiad o'r Rhaglenni Teuluoedd yn Gyntaf a'r model TAT yn Ionawr 2016. O ganlyniad i'r adolygiad, dynodwyd bod angen cynyddu nifer yr achosion TAT yn Sir Fynwy. Gallai'r Ddeddf Llesiant a Gwasanaethau Cymdeithasol newydd o bosib gynyddu nifer y '*Plant Mewn Angen*' a allent gael eu trosglwyddo i'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf a TAT. Yn y cyd-destun hwn, roedd yr her o reoli'r gostyngiad o £86,081 yng nghyllideb Teuluoedd yn Gyntaf tra roedd ymgais i ddod o hyd i arbedion ychwanegol i ariannu adnodd gweithiwr TAT.

Mae Prosiectau Teuluoedd yn Gyntaf a'r dyraniad cyllido fel a ganlyn:

**Tîm o Amgylch y Teulu (TAT)** **Cyllid 2016-17: £138,390**

Gyda chynnydd yng Nghyllideb TAT ar gyfer 2016-17, bydd mwy o gapasiti o fewn y Tîm TAT cyfredol yn cynnwys Cydgysylltydd TAT a 3 x Swyddog Prosiect TAT. Hyd yn hyn mae TAT wedi dibynnu ar fodel o weithiwr arweiniol 'gwirfoddol' i gydgysylltu cefnogaeth TAT i deuluoedd yn Sir Fynwy. Fodd bynnag, nid oes gan bobl broffesiynol brysur, tra'u bod yn ymrwymedig i'r dull amlasiantaethol o weithredu, bob amser yr amser i'w roi i faich achosion gweithiwr arweiniol i'r graddau sydd ei angen. O ganlyniad, mae nifer y teuluoedd gafodd eu cefnogi gan TAT wedi bod yn gymharol isel a bydd Swyddogion Prosiect ychwanegol TAT yn mynd i'r afael â'r mater hwn. Bydd Swyddogion Prosiect ychwanegol TAT hefyd yn galluogi'r Awdurdod i ddarparu cefnogaeth well i weithwyr arweiniol gwirfoddol tra maent yn cynyddu capasiti i gymryd ymlaen mwy o achosion TAT. Bydd hefyd yn caniatáu i Gydgysylltydd TAT ganolbwyntio ar flaenoriaethau 2016-17 TAT, a chynyddu nifer y teuluoedd a gefnogir dan fodel TAT.

**Acorn** **Cyllid 2016-17 : £239,786**

Mae prosiectau Acorns yn cynnwys timoedd amlasiantaethol yn cyflenwi cefnogaeth i rieni, addysg oedolion a chyngor, cefnogaeth yn y blynyddoedd cynnar (iaith a chwarae a therapi lleferydd), gwasanaethau iechyd a lles. Caiff ei gydgysylltu o Ganolfan Acorn (Canolfan Integredig Plant) yn Y Fenni, ac mae wedi cyflenwi hefyd mewn lleoliadau clwstwr eraill ar draws Sir Fynwy.

**Acorn Inclusive** **Cyllid 2016-17: £30,900**

Mae Acorn Inclusive yn cefnogi plant ag anableddau i gael mynediad i Brosiect Access gan gynnwys gweithio gyda gweithwyr portage, pediatregwyr, rhaglenni rhianta ac ymweld â rhieni gartref i asesu plant, maent hefyd yn darparu gofal plant i alluogi rhieni plant ag anableddau i gael mynediad i raglenni.

**Face 2 Face Counselling** **Cyllid 2016-17: £76,560**

Mae'n darparu cynghori wyneb yn wyneb i bobl ifanc, chwarae therapiwtig i blant a system therapi i grwpiau cyfan o deuluoedd.

**Inclusive Play and Leisure** **Cyllid 2016-17: £20,037**

Mynediad i ddarpariaeth chwarae'r haf yr awdurdod lleol ar gyfer plant ag anghenion cefnogi.

**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc held at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Iau, 19eg Mai, 2016 at 10.00 am**

**Watch, Wait and Wonder** **Cyllid 2016-17: £17,000**

Dyma brosiect Iechyd Meddwl i blant bach syn canolbwyntio ar ansawdd y berthynas rhwng rhieni a babanod. Cynhelir clinigau yng ngogledd a de'r sir a hyfforddiant rheolaidd mewn arsylwi plant bach ar gyfer plant oed 0-3 a'u rhieni.

**Prosiect Gofalwyr Ifanc** **Cyllid 2016-17: £50,486**

Cefnogir Gofalwyr Ifanc drwy ymyrraeth dargedig (eiriolaeth a chymorth) i leihau'r bwlch rhyngddynt hwy a'r cohortau cyffredinol o bobl ifanc/ ac fe'u cefnogir i gymryd rhan mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant.

**Cychwyn Gartref** **Cyllid 2016-17: £31,000**

Mae'n gweithio i liniaru'r pwysau a wynebir gan deuluoedd ar incwm isel â phlant dan bum mlwydd oed drwy osod gwirfoddolwr, sydd fel arfer yn rhieni eu hunain, i'w cefnogi.

Mae Teuluoedd yn Gyntaf yn ffafrio gweithio amlasiantaethol; mae'n gweithio'n gydweithredol gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol, Addysg, y Gwasanaeth Ieuenctid ynghyd ag iechyd, tai a'r heddlu ac ystod o bartneriaid y trydydd sector. Mae Rheolwr Teuluoedd yn Gyntaf a'r Cydgysylltydd TAT yn cysylltu gydag ystod eang o grwpiau partneriaeth y BGC i sicrhau dull cydgysylltiedig o weithredu, tra bod gan Grŵp Rheoli Teuluoedd yn Gyntaf/ TAT gynrychiolaeth o ystod eang o sefydliadau partner. Mae gweithio mewn partneriaeth yn ffurfio rhan fawr o daclo tlodi a chefnogi teuluoedd ar draws y sir, ac mae'n bwysig bod gan Bwyllgorau Dethol drosolwg cryf o'r gwaith hwn a'r camau gweithredu sy'n cael eu cymryd.

**Craffu Aelodau:**

- Dangoswyd cyflwyniad a DVD i'r Pwyllgor Dethol ynghylch y Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf.
- Bydd cyllid ar gyfer y Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf yn dod i ben ar 31ain Mawrth 2017. Mae'r Tîm yn disgwyl i Lywodraeth Cymru gadarnhau a ddarperir y cyllid hwn ai peidio ar ôl 2017.
- Dywedodd aelodau'r Pwyllgor Dethol y gallent gefnogi'r rhaglen hon ar lefel ward. Byddai'r Rheolwr Craffu'n darparu'r Cydgysylltydd Partneriaeth ac Ymgysylltu Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd â chyfeiriadau e-bost y Pwyllgor Dethol.
- Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod o'r Pwyllgor Dethol, nodwyd y darperir holiadur teulu ar ddechrau'r rhaglen ac yna eto pan fydd teulu'n gorffen y rhaglen. Mae hyn yn caniatáu i swyddogion fesur cynnydd y teulu.
- Roedd Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf yn cael ei gwerthfawrogi'n fawr.
- Roedd y Rhaglen ynghylch mynd i'r afael ag anghenion teuluoedd gyda'r bwriad o gynyddu cyflogadwyedd/sgiliau unigolion fel y byddent mewn gwell sefyllfa i ymuno â'r farchnad lafur.

- Gellid darparu ffigur canrannol ochr yn ochr â ffigurau rhifiadol.

- Mae'r prosiectau wedi'u cysylltu'n dda â'i gilydd, ynghyd â bod yn gysylltiedig i Fyrddau Iechyd, yr Heddlu, ysgolion a'r Gwasanaethau Cymdeithasol.

Crynhoad y Cadeirydd:

- Byddai aelodau'r Pwyllgor Dethol yn hoffi cael eu hysbysu o gyllid yn y dyfodol ar gyfer y Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf.

- Eir i'r afael â'r ffrydiau Gwaith gan Bwyllgor Dethol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

- Dylid adolygu'r Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf mewn naw mis.

- Gallai Aelodau Etholedig gynorthwyo i godi ymwybyddiaeth yn y Rhaglen.

Penderfynasom dderbyn yr adroddiad ac roeddem yn ymwybodol o'r materion a ddynodwyd.

7. **Rhaglenni Gwaith.**

Derbyniasom raglen waith Pwyllgor Dethol Plant a Phobl Ifanc. Wrth wneud hynny, nodwyd y pwyntiau canlynol:

- Nid yw'n ofynnol craffu ar y Cynllun Busnes ar gyfer y Gwasanaeth Cyflawni Addysg (GCA) ond dylai'r atodiad ddod gerbron y Pwyllgor Dethol at ddibenion craffu.

- Mae'r Rhaglen Waith i gael ei diweddaru i gwrdd â gofynion Penaethiaid pedair ysgol gyfun Sir Fynwy.

- Dylai'r Pwyllgor Dethol graffu polisïau ysgolion pan fydd hynny'n angenrheidiol.

- Derbyn diweddariad ar JEG gan yr Aelod Cabinet bob dau fis.

- Cynhelir cyfarfod arbennig Pwyllgor Dethol Plant a Phobl Ifanc ar 15fed Mehefin 2016 am 2.00pm ynghylch Taith Tuag at Welliant Gwasanaethau Plant.

- Trefnir cyfarfod ar y cyd rhwng Pwyllgor Dethol Plant a Phobl Ifanc a Phwyllgor Dethol oedolion i graffu Adroddiad Blynyddol y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r

Adroddiad Diogelu. Cytunwyd dyddiad dros dro ar gyfer y cyfarfod hwn i'w gynnal ar 20fed Mehefin 2016 am 2.00pm.

- Cynhelir cyfarfod ar y cyd rhwng Pwyllgor Dethol Plant a Phobl Ifanc a Phwyllgor Dethol Economi a Datblygiad yng Ngorffennaf 2016.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Is-gadeirydd, y Pwyllgor Dethol a'r swyddogion am eu cefnogaeth i gwblhau'r gwaith a gyflawnwyd gan y Pwyllgor Dethol yn 2015/16.

Penderfynasom dderbyn Rhaglen Waith y Pwyllgor Dethol gan nodi'r wybodaeth ychwanegol a ddarparwyd gan y Rheolwr Craffu.

**8. Council and Cabinet Business Forward Plan**

Penderfynasom dderbyn a nodi Blaengynllun Busnes y Cyngor a'r Cabinet.

**The meeting ended at Time Not Specified**